RHEOLAU A GWYBODAETH

1. Caiff **pob gêm** ei chwarae yn unol â Rheolau Cymdeithas Fowlio 'Crown Green' Prydain.

2. **Rhaid** i bob cyfranogwr fewngofnodi yn y man cofrestru pan fyddant yn cyrraedd y grin, rhaid gwneud hyn ym mhob sesiwn a rhaid i fowlwyr sicrhau bod y Trefnwyr yn gwybod eu bod yno.

3. Bydd amser 'scratch' 30 munud ar ôl amser dechrau pob sesiwn – **GLYNIR YN GAETH AT HYN** – bydd unrhyw ymgeisydd nad yw wedi cyrraedd y man cofrestru mewn pryd yn cael ei ddiystyru a bydd yn colli ei ffi gofrestru.

4. Pan fydd lleoliadau ac amser wedi'u dewis, ni fydd yn bosibl newid sesiynau. Bydd rhaid i unrhyw fowliwr nad yw'n gallu chwarae ar y diwrnod a/neu sesiwn a ddyrannwyd iddo golli ei le yn y twrnamaint penodol hwnnw. Ni roddir ad-daliadau am ffioedd cofrestru.

5. Y trefnwyr neu'r Clybiau Bowlio perthnasol fydd yn penderfynu a fydd modd ymarfer ar y grin o flaen llaw.

6. Bydd pob Bowliwr sydd wedi cyrraedd y cam mewn unrhyw dwrnamaint yn yr Ŵyl lle mae modd ennill gwobr ariannol yn colli'r arian hwn os na fyddant yn bresennol i chwarae yn ystod y camau diweddarach.

7. Ni fydd rhestr wrth gefn ar gyfer UNRHYW gystadleuaeth a drefnir.

8. Bydd pob gêm ar sail '21up off scratch' oni nodir yn wahanol.

9. Rhaid i bob cystadleuydd iau fod dan 18 erbyn dyddiad dechrau'r Ŵyl er mwyn cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth iau.

10. Bydd cod gwisg smart ar gyfer y cystadleuwyr fydd yn y rownd derfynol ar gyfer nosweithiau rowndiau terfynol Alun Jones a George Davies – bydd dyfarnwyr yn bresennol.